




Cofnodion ar ôl 2000 o'r tegeirian llydanwyrdd yng Nghymru. © Plantlife

Pencampwr Rhywogaeth



Carolyn Thomas AS
Party: Llafur Cymru
Region: Gogledd Cymru

Mwy o wybodaeth

- www.plantlife.org.uk/uk/discover-wild-plants-nature/plant-fungi-species/lesser-butterfly-orchid

Prif aelod

Plantlife

Tegeirian Llydanwyrdd

Disgrifiad a statws

Mae Cymru yn gartref i ddwy rywogaeth o degeirian llydanwyrdd, sef y Tegeirian Llydanwyrdd Mwyaf *Platanthera chlorantha* a'r Tegeirian Llydanwyrdd *Platanthera bifolia*. Mae'r ddwy rywogaeth yn debyg o ran ymddangosiad; tegeirianau mawr, gwyn sy'n ymddangos ddiwedd yr haf. Maent i'w gweld mewn cynefinoedd a oedd yn gyffredin yng Nghymru ar un adeg – yn enwedig mewn enghreifftiau sydd â chyfoeth o rywogaethau o borfeydd parhaol, dolydd gwair traddodiadol (gan gynnwys rhai ymylon ffyrdd) a choetiroedd hynafol. Am y rheswm hwn, maent yn cadw dosbarthiad cymharol eang ond maent bellach yn brin o ran nifer y safleoedd ac unigolion. Mae'r Tegeirian Llydanwyrdd Mwyaf yn cael ei ddosbarthu fel 'Agos at Fygythiad' ar Restr Data Coch Planhigion Fasgwlaidd Prydain Fawr. Mae'r Tegeirian Llydanwyrdd yn wynebu mwy o fygythiad ac yn cael ei ddosbarthu fel 'Agored i Niwed'.

Bygythiadau

Yng Nghymru, mae'r rhywogaethau hyn wedi prinhau yn bennaf o ganlyniad i golli glaswelltiroedd sy'n cael eu ffermio yn draddodiadol. Mae'r planhigion tegeirian llydanwyrdd ifanc yn ddibynnol ar berthynas symbiotig gyda ffwng sy'n hynod sensitif i ffrwythloni a ffyngladdwyr. Felly mae'r bygythiadau penodol yn cynnwys dinistrio a cholli cynefinoedd (datblygu, draenio, aredig, ailhadu), cyfoethogi maethynnau (gwrteithio, llygredd nitrogen), defnydd cemegol (chwynladdwyr, ffyngladdwyr) a'r newidiadau i reoli tir amaethyddol ymylol (esgeuluso yn arwain at ymlediad prysgwydd neu gynyddu dwysedd pori, neu newid i bori trymach gyda defaid yn hytrach na phori helaeth gan wartheg).


Gweithredu angenrheidiol

Mae Tegeirianau Llydanwyrdd yn araf yn sefydlu, sy'n golygu mai gwarchod eu safleoedd sy'n weddill yw'r flaenoriaeth gyntaf, ac adfer cynefinoedd yw'r ail. Mae'r camau gweithredu gofynnol yn cynnwys:

- Adnabod a diogelu'r safleoedd sy'n weddill ar gyfer y ddwy rywogaeth o degeirianau llydanwyrdd.
- Rheolaeth gadarnhaol ar safleoedd tegeirianau llydanwyrdd sy'n eiddo cyhoeddus, gan gynnwys ymylon ffyrdd.
- Mecanweithiau cyllido ffermydd priodol i gefnogi rheolaeth gydymdeimladol ar safleoedd tegeirianau llydanwyrdd, fel pori helaeth gan wartheg yn hwyr yn yr haf ar borfeydd parhaol sy'n llawn rhywogaethau, a rheolaeth ar ddolydd gwair heb fraenaru, a dim mewnbwn neu fewnbwn isel, gyda phori dilynol.
- Adfer eang ar laswelltir parhaol llawn rhywogaethau yn nhirwedd Cymru.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2022 Cyswllt Amgylchedd Cymru





Post-2000 records of butterfly orchids in Wales. © Plantlife

Species Champion



Carolyn Thomas MS
Party: Welsh Labour
Region: North Wales

Carolyn Thomas

More information

- www.plantlife.org.uk/uk/discover-wild-plants-nature/plant-fungi-species/lesser-butterfly-orchid

Lead member

Plantlife

Butterfly Orchid

Description and status

Wales is home to two species of butterfly orchid, the Butterfly Orchid *Platanthera chlorantha* and the Lesser Butterfly Orchid *Platanthera bifolia*. Both species are similar in appearance; large, white orchids that appear in late summer. They occur in habitats that were once widespread in Wales – particularly in species-rich examples of permanent pastures, traditional hay meadows (including some road verges) and ancient woodlands. For this reason, they retain a relatively widespread distribution but are now scarce in terms of numbers of sites and individuals. The Butterfly Orchid is classified as 'Near Threatened' on the Vascular Plant Red Data List for Great Britain. The Lesser Butterfly Orchid is more threatened and classified as 'Vulnerable'.

Threats

In Wales, these species have declined primarily as a result of the loss of traditionally farmed grasslands. The young butterfly orchid plants are dependent on a symbiotic relationship with a fungus that is incredibly sensitive to fertilisation and fungicides. Specific threats therefore include habitat destruction and loss (development, drainage, ploughing, reseeding), nutrient enrichment (fertilisation, nitrogen pollution), chemical use (herbicides, fungicides) and the changes to the management of agriculturally marginal land (abandonment leading to scrub encroachment or increased intensity of grazing, or a switch to heavier grazing with sheep rather than extensive cattle grazing).

Actions required

Butterfly Orchids are slow colonisers, which means that protection of their remaining sites is the first priority, and habitat restoration the second. Actions required include:

- Identification and protection of remaining sites for both butterfly orchid species.
- Positive management of butterfly orchid sites in public ownership, including road verges.
- Appropriate farm funding mechanisms to support sympathetic management of butterfly orchid sites such as extensive late-summer cattle grazing of species-rich permanent pasture and no-till, no- or low-input hay meadow management, with aftermath grazing.
- Widespread restoration of permanent species-rich grassland in the Welsh landscape.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2022 Wales Environment Link